# 25. Y FFORDD I EMAUS

**Darllen:** Luc 19: 28-40

Rhywbryd yn ystod y Dydd Sul hwnnw, cerddodd deuddyn o Jerwsalem i bentref Emaus, rhyw wyth milltir i ffwrdd. Cleopas oedd enw un ohonynt; caraf feddwl mai ei wraig yw'r llall. Yr oedd Mair, gwraig Cleopas, wrth y groes (Ioan 19: 25). Ond y mae yna hen draddodiad sy'n dweud mai Simon oedd enw cydymaith Cleopas. Yn ôl yr hanesydd Ewsebiws, cafodd Simon, mab Cleopas ei ethol yn esgob (neu arweinydd) Jerwsalem ar ôl marwolaeth Iago, '*brawd yr Arglwydd'*.

'*Eu digalondid yn eu hwynebau'* medd Luc. Digalondid hefyd oedd yn effeithio ar eu cerddediad ac yn meddiannu eu hymgom. Wrth iddynt siarad am ddigwyddiadau erchyll yr wythnos flaenorol, dyma ddyn dieithr yn dal i fyny â hwy ar y ffordd ac wedi iddo wrando arnynt am beth amser, fe ofynnodd iddynt: '*Am bwy ydych chwi'n siarad?*' Safasant mewn syndod a dweud: '*Am bwy? Rhaid mai chwi yw'r unig un fu yn Jerwsalem nad yw'n gwybod am y pethau sydd wedi digwydd yno! Am Iesu! Cafodd ei ddwyn gerbron yr archoffeiriaid ac arweinwyr y bobl ac wedyn gerbron Pilat. Fe'i croeshoeliasant ef. Ond ein gobaith ni oedd mai ef oedd i waredu Israel.'* Dyna'n gobaith, ond cawsom ein siomi'n chwerw iawn. Mae'r Arglwydd wedi marw ac mae'n gorwedd yn ei fedd. Pa werth sydd mewn gwaredwr marw? Ble cawn ni rhywun arall i roi pwys ein blinder a'n gobeithion arno?

Y cwestiwn yw, am ba fath o waredwr y buont yn disgwyl? Os mai Meseia arfog, grymus - nid rhyfedd iddynt gael eu siomi. Ni soniodd yr Iesu hwn am gasáu a lladd Rhufeiniaid, na dyrchafu Israel. Siaradodd am gyfiawnder a chariad, am faddeuant a chymod. *'Yr oeddem yn gobeithio'* ond croeshoeliwyd ef. Yn yr un ffordd, os mai dyheu yr oeddent am waredwr cysurus, di-boen, yn creu bywyd da ac esmwyth iddynt, nid rhyfedd iddynt gael siom enfawr. Oni ddywedodd Pedr ar eu rhan hwythau ac ar ein rhan ninnau: '*Ni chaiff hyn ddigwydd i ti.*' Ond, dewisodd Iesu fynd i Gethsemane a'r groes a'r bedd. Tridiau'n ddiweddarach a dwy fil o flynyddoedd wedyn, y mae yna sôn am atgyfodiad, ond y gwir realiti yw rhyfel a gormes, trachwant a cham-drin, ofn ac afiechyd a marwolaeth. Roeddem yn edrych ymlaen at fywyd cyfforddus a dymunol. '*Yr oeddem yn gobeithio…*' ond bu farw ar y groes.

Onid peth rhyfedd yw nad oeddent yn ei adnabod? Wrth gwrs, fel Mair Magdalen a'r lleill, meddwl yr oeddent am rywun marw. Dim ond y cof am ei groes a'i fedd oedd ganddynt. Claddwyd Iesu ym medd Joseff o Arimathea a rhaid iddynt gerdded adref a byw yno hebddo. Onid peth cyffredin iawn yw bod yn ddall i'r '*Duw sy'n llond pob lle, presennol ymhob man; y nesaf yw efe o bawb at enaid gwan?'*[16] Anodd derbyn y byddai eglwysi'r Gorllewin, ac yn arbennig rhai Cymru, yn eu cyflwr presennol pe byddai'r aelodau yn ymwybodol o bresenoldeb yr Arglwydd yn ein plith.

Dechreuodd y dieithryn siarad a meddiannu'r sgwrs am weddill y daith. Agorodd yr Ysgrythurau gan ddehongli rhagluniaeth Duw iddynt, ond oedd rhaid i Was Dioddefus y proffwyd Eseia ddioddef er mwyn cael rhan ym mywyd dynolryw? Oni ddaeth i faddau ac iacháu, i waredu a rhyddhau, gan gyflawni ei fwriad trwy gerdded ffordd y Groes a marw ar Galfaria? A dyma ddechrau deall ac amgyffred i'r ddau.

Wedi iddynt gyrraedd adref, estynnodd y ddau wahoddiad i'r dyn dieithr aros dros nos. Wrth iddynt eistedd i lawr i swper, dyma'r un a gafodd ei wahodd i'w cartref gymryd arno'i hun i lywyddu wrth y bwrdd fel penteulu. Cymerodd y bara a rhoi diolch a'i dorri a'i roi iddynt hwy. Cynigodd ymborth iddynt fel y gwnaeth i'r torfeydd yn yr anialwch, fel y gwnaeth mor aml i'w gyfeillion, ac fel y gwnaeth yn yr Oruwch Ystafell y noson y bradychwyd ef. '*Ac ar unwaith dyma'u llygaid yn agor a'r ddau yn ei adnabod.*' Ac yr un mor gyflym, fe ddiflannodd o'u golwg. Diflannodd eu blinder a brysiodd y ddau yn ôl yr wyth milltir i'r ddinas. Roedd ganddynt newyddion da i'w gyhoeddi, rhywbeth gwerth ei rannu â phobl eraill! '*Cawsant yr un-ar-ddeg a'u dilynwyr wedi ymgynnull… Adroddasant hwythau am hanes eu taith, ac fel yr oeddent wedi ei adnabod ef ar doriad y bara.'*

**Gweddi:**

*O Dduw'r bywyd a'r cariad,*
*gwnaeth dy Fab ei hun yn hysbys i'w ddisgyblion*
*yn nhoriad y bara.*
*Agor ein llygaid fel y gwelom ef*
*yn ei waith gwaredol;*
*yr un sy'n byw ac yn teyrnasu gyda thi,*
*yn undod yr Ysbryd Glân,*
*yn un Duw, yn awr ac yn dragywydd. Amen.*